

Toys in the Attic

John Paul Evans

Cyfes o ffotograffau yw *'Toys in the attic'* lle mae fy ngŵr, Peter, a fi'n perfformio syniadau am gartre, y cof, dieithriwch, perthyn ac arwahanrwydd.

Defnyddir gofod y llofft fel trosiad am yr anymwybod a'r broses gymdeithasoli gynnar rydyn ni'n dod ar ei thraws mewn diwylliant patriarchaidd.

Awgrymodd Baudelaire fod gallu'r plentyn i borthi'i ddychymyg yn dystiolaeth o deimladrwydd artistig: "Y tegan yw cyflwyniad cyntaf y plentyn i gelfyddyd, neu'n hytrach ei enghraifft ddiriaethol gyntaf o gelfyddyd a phan fydd aeddfedrwydd yn ymyrryd, ni fydd yr enghraifft brinnaf yn bodloni'i feddwl â'r un brwdfrydedd na'r un argyhoeddiad tanbaid."¹

Roedd cyfyngiadau'r meddwl a'r cof yn ymddangos yn fwy perthnasol byth ar adegau o hunanynysu a chlo, gan gonsurio tirwedd fewnol gyda chyfeiriadau at atgofion a dylanwadau plentyndod.

Mae'r awydd i dynnu'n ôl o fyd cyfrifoldebau oedolion a'r holl reolau a rheoliadau sy'n cael eu gorfodi arnon ni, efallai'n deimlad cyffredin. Os yw rhywun yn teimlo yn ei flynyddoedd ffurfiannol nad yw'n perthyn, ei fod 'ar wahân' i'r grŵp cymdeithasol y mae'n cael ei daflu iddo, wedyn does fawr o ddewisiadau o ran goroesi. Un ai mae rhywun yn smalio, cymaint ag y gallith, fod yn debyg i bawb arall neu mae rhywun yn ceisio edrych ar ffyrdd eraill.

Mae'r plentyn Oscar yn penderfynu na fydd yn cymryd rhan ym myd yr oedolion gan ei daflu'i hun i lawr y grisiau er mwyn atal ei dwf ac aros fel plentyn am byth. Cymeriad annibynadwy yw Oscar, ond un herfeiddiol yw ei stori, am yr awydd i dynnu'n ôl o fyd yr oedolion mewn amser a lle arswydus, llawn newid cymdeithasol. Gyda thrawiad ei ddrwm a thraw ei lais, mae'n creu ei frand arbennig o ddireidi ac anhrefn ble bynnag y mae'n mynd.

"Oscar, paid byth â sefyll o flaen y prif stand, ar y prif stand mae lle pobol fel ni."²

¹ Charles Baudelaire *The Philosophy of Toys*

² Gunther Grass *Tin Drum*

© John Paul Evans

Mae'r testun hwn yn rhan o **What is lost... what has been**
Arddangosfa gan **John Paul Evans** yn **Oriel Mission**
26 Mawrth - 14 Mai 2022

Oriel Mission
Gloucester Place
Yr Ardal Forol
Abertawe, SA1 1TY
Y Deyrnas Unedig

www.missiongallery.co.uk
info@missiongallery.co.uk
+44 (0) 1792 652 016

Mission Gallery

